

SL(5)698 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) (Diwygio) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau") er mwyn —

- (a) ei gwneud yn ofynnol i bob sinema, ffair, parc difyrrwch, parc thema, amgueddfa, oriel ac atyniad ymwelwyr, boed o dan do neu yn yr awyr agored, fod ar gau;
- (b) egluro bod yn rhaid i barciau a chanolfannau trampolîn a pharciau a chanolfannau sglefrio o dan do fod ar gau;
- (c) (er gwaethaf y gofynion ar fangreoedd busnes penodol i fod ar gau) caniatáu i sinemâu a theatrau o sedd cerbyd agor yn ddarostyngedig i'r gofyniad yn y prif Reoliadau fod pob mesur rhesymol yn cael ei gymryd ar fangreoedd busnes i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Mae'r newidiadau hyn yn dod i rym ar ddechrau 14 Rhagfyr 2020.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn sylwadau Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol (wedi'u copïo isod) o ran goblygiadau hawliau dynol y Rheoliadau hyn:



“Er bod y diwygiadau sydd yn y Rheoliadau hyn yn parhau'n berthnasol o dan y prif Reoliadau i hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu bod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.”

Fodd bynnag, dim ond datganiad yw hwn bod y Rheoliadau'n gyfiawn/gymesur – nid oes dadansoddiad o sut y daethpwyd i'r casgliad hwnnw.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Wrth benderfynu a oedd angen y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn, a phennu manylion y cyfyngiadau a'r gofynion hynny, rwyf i, ynghyd â Gweinidogion a swyddogion eraill Llywodraeth Cymru, wedi cynnal trafodaethau gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arweinwyr llywodraeth leol a busnesau ac undebau llafur yng Nghymru ac rydym yn parhau i wneud hynny. Yn fy natganiad i'r Aelodau ar 11 Rhagfyr, cyhoeddais fwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi diweddariad i Gynllun Rheoli Coronafeirws yr wythnos ganlynol.”

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

